Tîm Tirweddau Gwarchodedig
Is-adran Tirwedd a Hamdden Awyr Agored
Llywodraeth Cymru
Trydydd Llawr Adain y De Piler CO2
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

4 Hydref 2013

**Golwg ar y Dyfodol – Ymgynghoriad ar y Datganiad Polisi Drafft ar gyfer Tirweddau Gwarchodedig yng Nghymru**

Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw sicrhau y bydd adnoddau naturiol Cymru'n cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio'n gynaliadwy, yn awr ac yn y dyfodol.

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru ddyletswydd gyfreithiol dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd i warchod a gwella harddwch naturiol mewn ardaloedd a ddynodwyd yn Barciau Cenedlaethol neu'n Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) a mannau eraill. Mae gennym ystod eang o bwerau a dyletswyddau'n ymwneud â thirweddau gwarchodedig o ran rheoli, gweinyddu a dynodi. Rydym hefyd yn cefnogi Llywodraeth Cymru a Defra wrth weithredu a chyflawni'r Confensiwn Tirweddau Ewropeaidd yng Nghymru.

Mae tirweddau gwarchodedig yn asedau cenedlaethol strategol yng Nghymru. Maent yn cwmpasu 25% o arwynebedd y tir ac yn cynnwys bob math o adnoddau naturiol a gwasanaethau'r ecosystem, ac mae manteision y rhain yn cyfrannu tuag at les economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Dangoswyd hyn gan yr astudiaeth Arup ddiweddar, a ddarganfu fod economïau tri Pharc Cenedlaethol Cymru'n gyfrifol am £557 miliwn o Werth Ychwanegol Crynswth gan gefnogi 10,738 o swyddi o fewn eu ffiniau a 2,033 arall ledled Cymru ['Rhoi Gwerth ar Barciau Cenedlaethol Cymru,' Parciau Cenedlaethol Cymru, CLILC a Cyfoeth Naturiol Cymru, ARUP 2013]. Mae'r Tîm Tirweddau Gwarchodedig yn bartneriaid cyflawni pwysig ar gyfer canlyniadau Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru.

Rydym yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i dirweddau gwarchodedig fel y'i dangoswyd gan y datganiad polisi drafft a'r ddarpariaeth o gyngor integredig ar gyfer Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol.

Rydym yn cydnabod y bydd gan yr awgrymiadau a'r cynigion a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori gydberthynas a chyd-ddibyniaeth â'r Mesurau a nodwyd yn rhaglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth a gwaith y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae ein sylwadau a'n cyngor yn adlewyrchu hyn.

Rydym yn croesawu'r gydnabyddiaeth yn y ddogfen o'n rôl fel ymgynghorwyr statudol ar dirwedd a harddwch naturiol ac edrychwn ymlaen at weithio gyda Llywodraeth Cymru a'r awdurdodau sy'n gyfrifol am dirweddau gwarchodedig, i ddatblygu a rhoi ar waith y cynigion sydd yn 'Golwg ar y Dyfodol.'

Mae ein cyngor wedi ei lywio gan Is-Grŵp Amgylchedd ein Bwrdd ac rydym yn gobeithio y byddwch yn ei weld yn adeiladol ac yn ddefnyddiol.

Byddem yn croesawu cyfle i ymhelaethu ar unrhyw rai o’r pwyntiau a wnaed yn yr ymateb hwn.

Yn gywir

**Emyr Roberts**
**Prif Weithredwr**
**Cyfoeth Naturiol Cymru**

**Cwestiwn 1**: **Ydych chi'n credu bod y ddogfen bolisi hon yn rhoi tirweddau gwarchodedig Cymru mewn safle priodol i chwarae rhan ganolog yn y gwaith o ddatblygu'r weledigaeth o Gymru gynaliadwy?**

1.1 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n croesawu datblygu cynaliadwy fel prif egwyddor drefniadol ganolog ac yn cefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru y gall tirweddau gwarchodedig ddod yn fecanwaith darparu allweddol i gefnogi ffordd o fyw mwy cynaliadwy yng nghefn gwlad Cymru.

1.2 Rydym hefyd yn croesawu cynnwys AHNE yn y datganiad polisi. Mae hyn, am y tro cyntaf, yn gosod fframwaith cenedlaethol ar gyfer cynllunio a rheoli tirweddau gwarchodedig yng Nghymru. Mae'r Ymgynghoriad Polisi hwn yn cadarnhau eu statws cenedlaethol yng Nghymru a bod tirweddau gwarchodedig yn cael eu cydnabod drwy systemau dynodi'r DU a rhai Rhyngwladol fel y prif fecanwaith statudol i reoli a chyfoethogi ein tirweddau o bwysigrwydd cenedlaethol.

1.3 Yn amodol ar argymhellion y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus, rydym yn cefnogi cydweithio agosach rhwng y sefydliadau sydd yn gyfrifol am dirweddau gwarchodedig yng Nghymru i ddarparu gwasanaethau cost effeithiol, effeithlon, cadarn ac o safon uchel i reoli'r tirweddau pwysig hyn er budd lleol a chenedlaethol.

1.4 Os yw tirweddau gwarchodedig i fod yn fecanwaith darparu effeithiol o ran canlyniadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, bydd ystod ehangach o ddulliau ysgogi a systemau cenedlaethol a lleol yn angenrheidiol i lwyr gyflawni'r canlyniadau y gellid eu darparu. Mae ein sylwadau isod ynghylch y cynllun strategol arfaethedig a'r gydberthynas â'r Cynlluniau Cyflawni Unigol yn manylu ar y pwynt yma.

1.5 Gellid ystyried sicrhau bod dangosyddion y canlyniadau yn cyd-fynd â'r rhai a gytunwyd rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru i gynorthwyo i sicrhau synergedd ac integreiddio rhwng canlyniadau cyffredin a'r Rhaglen Lywodraethu. Wedyn gellid teilwra mesurau perfformiad perthnasol yn fwy penodol i'r canlyniadau er mwyn adlewyrchu rhinweddau arbennig tirweddau gwarchodedig.

1.6 Er yn cydnabod bod cynnydd wedi'i wneud drwy weithio gydag amrywiol fudd-ddeiliaid, gallai'r ddogfen gynnig mwy o ganllawiau ar yr angen, a'r cyfle, i weithio gyda sectorau newydd megis iechyd a busnes er mwyn cyflawni'r canlyniadau a'r weledigaeth yn y datganiad polisi.

1.7 Byddai canllawiau pellach yn galluogi tirweddau gwarchodedig i integreiddio safbwynt mwy hirdymor wrth reoli, cynllunio a gwneud penderfyniadau, gan gynnwys yr angen i ddatblygu economi, cymunedau ac amgylchedd cadarn i wynebu sialensiau'r dyfodol o ran newid hinsawdd a phwysau ar adnoddau naturiol.

**Cwestiwn 2: Ydy'r ddogfen bolisi hon yn llwyr alluogi tirweddau gwarchodedig Cymru i gyflawni eu dibenion statudol priodol yn llawn?**

2.1 Rydym yn cefnogi'n gryf gadarnhad Llywodraeth Cymru fod y rhain yn dirweddau o bwysigrwydd cenedlaethol, gyda dynodi'n rhoi'r statws uchaf ar gyfer cadwraeth tirwedd, a

byddem yn croesawu cyfeiriad at eu statws rhyngwladol yn ennill cydnabyddiaeth Categori V drwy broses werthuso'r Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur (IUCN).

2.2 Mae dealltwriaeth gyffredin o derminoleg yn ganolog er mwyn cynorthwyo i gyflawni dibenion statudol, gan gynnig eglurder, sicrwydd a chysondeb i fudd-ddeiliaid a phenderfynwyr. Gellid gwella'r ddogfen datganiad polisi yn hyn o beth:

- I adlewyrchu terminoleg statudol, ac i sicrhau cysondeb gyda chanllawiau sydd eisoes yn bodoli, rydym yn argymell defnyddio'r term 'harddwch naturiol' ynghyd â chyfeiriadau priodol at ddibenion cyfreithiol a rhinweddau arbennig tirweddau gwarchodedig drwy'r ddogfen gyfan. Mae angen hefyd i'r ddogfen egluro ym mharagraff 22 mai dim ond i'r Parciau Cenedlaethol y mae Egwyddor Sandford yn berthnasol yn gyfreithiol a bod diffiniad cywir 'Egwyddor Silkin' wedi ei gynnwys ym mharagraff 32.

- Mae'r ddogfen yn cyfeirio'n ddefnyddiol at yr angen i'r penderfynwyr ystyried effaith materion megis newid hinsawdd, ynni a thwristiaeth ar dirweddau gwarchodedig. Fodd bynnag, nid yw'r ddogfen yn cynnig cyngor ar y modd y dylid ystyried materion o'r fath wrth wneud penderfyniadau. Gellid ystyried cyfeirio pobl at ffynonellau eraill o ganllawiau pan fyddent ar gael e.e. Nodiadau Cyngor Technegol (TAN), Polisi Cynllunio Cymru. Bydd angen ystyried canlyniad yr adolygiad o ddeddfwriaeth mynediad.

- Mae angen egluro'r cyfeiriad at 'lawer o ynni adnewyddadwy' ym mharagraff 35 er mwyn osgoi amwysedd a rhoi sicrwydd i'r penderfynwyr a'r budd-ddeiliaid.

2.3 Mae'n briodol bod y ddogfen yn tanlinellu rôl allweddol y system cynllunio defnydd tir fel mecanwaith darparu pwysig i warchod tirweddau gwarchodedig. Er hynny, mae angen mwy o bwyslais ar y prif gymhorthion sydd ar gael i reoli'r dirwedd, er enghraifft Glastir, a goblygiadau posibl diwygio'r PAC yn y dyfodol.

2.4 Gallai'r cynigiad mewn perthynas â 'chynhyrchu cynllun strategol unigol ar y cyd ar gyfer holl dirweddau Cymru sy'n cael eu diogelu - cynllun a fyddai'n nodi canlyniadau cenedlaethol', ddarparu mecanwaith i ddatblygu trysorfa dystiolaeth genedlaethol ar gyfer tirweddau gwarchodedig yng Nghymru, yn ogystal â phroses i ymgysylltu â budd-ddeiliaid strategol a chenedlaethol allweddol i gyfrannu tuag at gyflawni canlyniadau cenedlaethol ar gyfer tirweddau gwarchodedig. Fodd bynnag, bydd angen egluro'r berthynas rhwng cynllun strategol o'r fath ac unrhyw gynigion a all godi ar gyfer cynlluniau rheoli adnoddau naturiol yn y Bil Amgylchedd sydd ar ddod.

2.5 Er mwyn adlewyrchu'r dull rheoli ar lefel yr ecosystem a rheoli adnoddau naturiol, byddai angen i'r cynllun strategol fod yn ofodol, integredig a chyfranogol. Wrth ddatblygu'r cynigiad bydd angen egluro:

- y rôl a'r cyfrifoldeb arweiniol am baratoi'r cynllun strategol;

- statws y cynllun strategol a'r cyfrifoldeb dros gymeradwyo;

- y berthynas rhwng y strategaeth s62/85 bresennol a mentrau, rhaglenni a chynlluniau sydd eisoes yn bodoli;

- y berthynas rhwng monitro strategaeth s62/85 fel y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 6 a darparu a monitro cynllun strategol;

2.6 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n nodi y bydd ei rôl fonitro arfaethedig yn dymuno trafod cwmpas y rôl, goblygiadau'r adnoddau a chydberchnogaeth bosibl gyda Llywodraeth Cymru;

2.7 Byddem yn croesawu cyfle i weithio gyda Llywodraeth Cymru a'r Tîm Tirweddau Gwarchodedig yn arbennig er mwyn cynorthwyo i gwmpasu'r cynllun strategol arfaethedig, y drysorfa dystiolaeth ac egwyddorion allweddol a'r modd y byddai hyn yn cyd-fynd â'n dulliau arfaethedig yn seiliedig ar ddalgylchoedd at gynllunio adnoddau naturiol.

2.8 Croesewir y pwyslais ar 'ddulliau arloesol.' Mae gan y Tîm Tirweddau Gwarchodedig brofiad helaeth o brofi a threialu dulliau newydd o reoli tirwedd, megis Tir Cymen a Thir Gofal. Byddem yn croesawu cyfeiriad at Gronfa Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru fel enghraifft o brofi dulliau arloesol o ddatblygu cynaliadwy. Byddem hefyd yn croesawu cyfeiriad at gyfleoedd a gyflwynir gan yr adolygiad o Gynllun Glastir yn y dyfodol. Bydd tirweddau gwarchodedig hefyd yn chwarae rôl yn unrhyw ddulliau arloesol o gyflwyno gwasanaethau a argymhellir gan y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus.

2.9 Bydd gofyn am ganllawiau i egluro'r berthynas rhwng y cynllun strategol a chynlluniau rheoli statudol unigol ar gyfer tirweddau gwarchodedig, gan ganolbwyntio'n arbennig ar rôl hynodrwydd lleol, y drysorfa dystiolaeth ac ymgysylltiad budd-ddeiliaid.

2.10 Bydd angen cadarnhau'r gydberthynas rhwng y cynllun strategol ac unrhyw fframweithiau cenedlaethol neu ranbarthol a awgrymir yn y Bil Amgylchedd ynghyd â'r gyd-ddibyniaeth rhwng y cynllun rheoli tirweddau gwarchodedig, cynlluniau datblygu lleol a chynlluniau cyflawni unigol. Mae yna gyfle i ddatblygu a darparu un drysorfa dystiolaeth i lywio'r prosesau a chynlluniau hyn sydd ar wahân, ac eto'n cyd-berthyn.

2.11 Mae'r broses cynllunio rheoli ar gyfer tirweddau gwarchodedig yn cynnig proses gyfranogol a fframwaith i integreiddio anghenion budd-ddeiliaid cenedlaethol a lleol, ynghyd â mecanweithiau i osgoi amgylcheddau sydd o dan bwysau ac i ddarparu codau ymddygiad gwirfoddol a chodau mynediad gwirfoddol i reoli gwrthdaro yn lleol. Mae ymgysylltu buddiannau amaethyddol a rheolwyr tir yn rhoi cyfle i gefnogi cynlluniau rheoli gyda dulliau rheoli tir a dŵr integredig drwy ddefnyddio dull rheoli ar lefel yr ecosystem i reoli adnoddau naturiol.

2.12 Mae'r system cynllunio defnydd tir yn cynnig mecanwaith darparu allweddol i dirweddau gwarchodedig gyflawni canlyniadau a dibenion statudol. Rydym felly'n croesawu'r gydnabyddiaeth y mae'r ddogfen bolisi'n ei rhoi i bwysigrwydd y system gynllunio wrth ddarparu dibenion statudol tirweddau gwarchodedig

2. 13 Er gwaethaf canlyniad y Bil Cynllunio a'r Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus, gellid ystyried cynnig cyngor a chanllawiau pellach ynglŷn â chyflawni swyddogaethau cynllunio a rheoli tirweddau gwarchodedig yng nghyd-destun yr angen i ddatblygu gwytnwch amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ar gyfer y dyfodol.

2.14 Gellid amlygu pwysigrwydd cydweithio a gweithio mewn partneriaeth rhwng y Tîm Tirweddau Gwarchodedig, Awdurdodau Lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru er mwyn cyflawni canlyniadau ar y cyd, ynghyd â rôl bwysig ariannu allanol.

2.15 Mae paragraff 12 yn cyfeirio at leihau ‘rheoleiddio’ a byddai’n ddefnyddiol egluro sut y mae hyn yn gysylltiedig â chyflawni gwell canlyniadau ar gyfer datblygu cynaliadwy a dibenion statudol tirweddau gwarchodedig.

**Cwestiwn 3: Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i’r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:**

3.1 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru’n cefnogi’r dull integredig a hyrwyddwyd yn Ymgynghoriad y Datganiad Polisi ac mae’n credu y byddai ymhelaethu ar y meysydd canlynol yn gwella eglurder ar gyfer penderfynwyr a budd-ddeiliaid:

- Gallai’r ddogfen fod yn fwy eglur wrth gydnabod y gydberthynas rhwng rheoli gwasanaethau’r ecosystem, darparu’r isadeiledd gwyrdd a rôl tirwedd fel fframwaith sy’n integreiddio sydd yn darparu pob math o fuddion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Mae gofalu am dirwedd a’i chydrannau a’u rheoli yn sail i les cymdeithasol ac economaidd fel yr amlygwyd yn ddiweddar yn Strategaeth Twristiaeth 2013-2020 Llywodraeth Cymru ‘Partneriaeth ar gyfer Twf.’

- Byddai’n ddefnyddiol cynnig canllawiau ar y berthynas ymarferol rhwng tirweddau gwarchodedig ac ardaloedd cyfagos, nid yn unig mewn perthynas ag adnoddau amgylcheddol ond hefyd i ddarparu buddion iechyd a buddion economaidd gymdeithasol.

- Byddai’n fuddiol cynnig cyngor ar reoli morluniau, pysgodfeydd, ardaloedd morol ac arfordirol o ystyried natur arfordirol sylweddol pump o’r tirweddau gwarchodedig yng Nghymru a’r modd y gellir cyflawni dull rheoli integredig ar lefel yr ecosystem mewn systemau morol a daearol.

- Gallai’r cyfeiriad at yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru ym mharagraff 24 gyfeirio’n ddefnyddiol hefyd at rôl yr iaith Gymraeg fel elfen gydrannol o wasanaethau diwylliannol yng nghyd-destun dull rheoli ar lefel yr ecosystem.

- Byddai’n ddefnyddiol cynnwys datganiad yn egluro safbwynt Llywodraeth Cymru ynghylch dynodiadau yng Nghymru yn y dyfodol er mwyn cynnig eglurder a sicrwydd i benderfynwyr a budd-ddeiliaid.

- Dylid cael mwy o bwyslais ar y prif gymhorthion sydd ar gael i reoli tirwedd e.e. cynllun Glastir a’r adolygiad ohono yn y dyfodol, y Cynllun Datblygu Gwledig nesaf a’r PAC.

- Dylid ystyried effaith y rhaglen ddeddfwriaethol arfaethedig e.e. Bil yr Amgylchedd, Y Bil Cynllunio, Bil Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddfwriaeth Adolygu Mynediad.